
DEFNYDDIO MEDDALWEDD PLEIDLEISIO AR GYFER ADDYSGU

Gall defnyddio meddalwedd pleidleisio ar gyfer gweithgareddau yn y dosbarth fod yn ffordd o wella ymgysylltiad y myfyrwyr. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio dwy feddalwedd pleidleisio sydd ar gael yn rhad ac am ddim - Mentimeter a Poll Everywhere.

CYNNWYS

Dechrau arni gyda Mentimeter	1
Pa fathau o gwestiynau sydd ar gael yn Mentimeter?	3
Sut mae creu gweithgareddau yn Mentimeter?	4
• Creu sleidiau cyflym	5
• Creu cwestiynau.....	6
• Creu cwisiau	8
Sut mae gwneud y bleidlais yn fyw?	8
Sut mae integreiddio fy mhleidlais i PowerPoint?.....	10
Dechrau arni gyda Poll Everywhere	11
Pa fathau o gwestiynau sydd ar gael yn Poll Everywhere?.....	12
Sut mae creu gweithgareddau yn Poll Everywhere?	13
Sut mae gwneud y bleidlais yn fyw?	16
Sut mae grwpio fy ngweithgareddau?	17
Sut mae integreiddio fy mhleidlais i PowerPoint?.....	17

DECHRAU ARNI GYDA MENTIMETER



Mae Mentimeter yn well ar gyfer darlithoedd sydd â chynulleidfaoedd mawr oherwydd nad oes cyfyngiad ar gyfranogwyr. Gyda Mentimeter gallwch greu: sleidiau cyflym, cwestiynau a chwisiau. Nid oes cyfyngiad ar nifer y sleidiau cyflym, ond gyda'r fersiwn rhad ac am ddim dim ond dau gwestiwn a phump cwis y cewch eu creu.

Agorwch borwr a theipio <https://www.mentimeter.com/>

- Dewiswch "Get started for free" a chrëwch gyfrif.

Want to try Mentimeter?

Mentimeter is free for as long as you'd like!

or using email

E-mail

Password


At least 6 characters.


First and last name

[Sign up](#)

Already have an account? [Log in!](#)

- Ar ôl creu cyfrif byddwch yn gweld y sgrin hon.





Mae gan y bar offer ar yr ochr chwith y dewisiadau canlynol:

1. Your Presentations – sy'n eich galluogi i weld unrhyw gyflwyniad yr ydych wedi'i greu.

2. Inspiration- sy'n cynnwys cyflwyniadau wedi'u hadeiladu eisoes i ysbrydoli.

3. Upgrade- dyma'r dewis i uwchraddio Mentimeter i wasanaeth y mae'n rhaid talu amdano i ddatgloi rhagor o ddewisiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn angenrheidiol, eich dewis personol chi ydyw.

4. Branding & colours- sydd â dewisiadau addasu gweledol.

5. Account- Dewisiadau i ddiweddarau gwybodaeth am eich cyfrif.

6. Help- Cyfarwyddiadau, cymorth a dolen ategyn PowerPoint .


PA FATHAU O GWESTIYNAU SYDD AR GAEL YN MENTIMETER?

Math o Gwestiwn	Disgrifiad
Dewis Llun	Rhoi cyfle i'r gynulleidfa ddewis rhwng lluniau/delweddau. Gall delweddau gael eu llwytho o'ch dyfais.
Cwmwl Geiriau	Gall aelodau o'r gynulleidfa ateb cwestiwn trwy gyflwyno geiriau sy'n ymddangos fel "cwmwl" ar y sleid. Mae'r geiriau a gyflwynwyd fwyaf yn ymddangos yn fwy.
Penagored	Mae'n caniatáu i'ch cynulleidfa ysgrifennu sylwadau hirach sy'n ymddangos ar y sleid ar ffurf Swigod Siarad, Fesul Un neu fel Grid Llifol.
Graddfeydd	Mae'n caniatáu i'ch cynulleidfa raddio datganiadau penodol h.y. i ba raddau y maent yn anghytuno neu'n cytuno â mater / datganiad.
100 o Bwyntiau	Mae'n caniatáu i'ch cynulleidfa flaenoriaethu eitemau allan o 100%.

Pwy fydd yn Ennill	Rhaglen bleidleisio y gellir ei defnyddio ar gyfer cystadlaethau.
Matrics 2X2	Mae'n caniatáu i chi greu siart ar gyfer arolwg sy'n mesur echel-x ac echel-y yn erbyn ei gilydd.
Cwestiwn ac Ateb	Mae'n caniatáu i'r gynulleidfa gyflwyno cwestiynau i'w gofyn i'r cyflwynydd.


SUT MAE CREU GWEITHGAREDDAU YN MENTIMETER?

- I greu cyflwyniad dewiswch “**New presentation**” ar y sgrin gartref.
- Rhwch enw i'r cyflwyniad.



- Gallwch hefyd ddewis “**Presentation settings**”.
 - Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis a yw'r cyflwyniad ar gyflymdra'r Cyflwynydd neu'r Gynulleidfa.
 - Mae **Presenter pace** yn golygu y gall y gynulleidfa ond rhyngweithio â'r sleid y mae'r cyflwynydd arni ar hyn o bryd.
 - Mae **Audience Pace** yn golygu y gall y gynulleidfa ddefnyddio eu dyfeisiau i symud ymlaen ar eu cyflymdra eu hunain waeth pa sleid y mae'r cyflwynydd arni (ond gallwch newid y dewis hwn yn ddiweddarach).
- Ar ôl i chi roi enw i'ch cyflwyniad dewiswch “**Create Presentation**”

- Dewiswch sleid o’r dewisiadau a roddir:




- **“Question type”**- mae’n cynnwys dewisiadau o’r math o gwestiynau yr hoffech eu gofyn i’ch cynulleidfa gan amrywio o amlddewis i benagored.
- **“Quiz”**- Mae’n cynnwys templedi cwis i ofyn i’ch cynulleidfa.

Yn ystod y cyfnewid, gellwch greu a golygu sleidiau PowerPoint. Yma gallwch ychwanegu tudalen deitl neu dudalennau sy’n cynnwys gwybodaeth.

CREU SLEIDIAU CYLIFYM

- Dewiswch y sleid o’ch dewis, er enghraifft **“Heading”**
 - Teipiwch y pennawd/is-bennawd yn y blychau i’r dde o’r sgrin. Dyma fydd y testun a fydd yn ymddangos ar y sleid.



- Gallwch hefyd roi’r dewis i’ch cynulleidfa ymateb i’r sleidiau. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i ddarganfod a yw’r gynulleidfa wedi deall yr wybodaeth a gyflwynwyd.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau un sleid, dewiswch **“New Slide”** ar waelod y sgrin ar yr ochr chwith.

- I ddileu sleidiau diangen daliwch y llygoden dros sleid yn y rhagolwg ar ochr dde bellaf y sgrin a dewiswch yr eicon bin. Gallwch hefyd gopïo sleid neu ddyblygu sleid.

Noder: Mae Mentimeter yn cadw eich cyflwyniadau'n awtomatig ac mae'r fersiwn rhad ac am ddim yn caniatáu i chi gael cyfanswm anghyfyngedig o sleidiau **syifaenol** neu **gyflym**.

- Mae'r bar ar y brig ar yr ochr dde yn rhoi dewisiadau pellach.

- **“Template”**- Yma gallwch ddewis o dempledi proffesiynol. Gallwch addasu'r wybodaeth i'w gwneud yn berthnasol i'ch cyflwyniad.
- **“Theme”**- Mae'n galluogi i chi newid lliw'r sleidiau.
- **“Configure”**- Mae'n gadael i chi newid a ydych eisiau i'r cyflwyniad symud ar eich cyflymdra chi neu gyflymdra'r gynulleidfa (gweler uchod).
 - Gallwch newid yr iaith.
 - **“Export & Share”**- Mae'n rhoi dolen i dudalen ble gallwch lawrlwytho'r cyflwyniad neu'r sleidiau fel PDF.
 - **“Q&A”**- Mae'n caniatáu i chi ddewis a ydych eisiau i'ch cynulleidfa allu cyflwyno cwestiynau (bydd hyn yn fwy perthnasol yn yr adran Cwestiwn o'r canllaw).
- **“Help”**- Rhoi canllaw cyflym i chi o sut i gyflwyno.

CREU CWESTIYNAU

- Mae'r fersiwn rhad ac am ddim o Mentimeter yn caniatáu i chi ddewis **dau gwestiwn** o unrhyw fath.

The screenshot shows the Mentimeter interface. At the top, there's a navigation bar with 'Templates', 'Theme', 'Configure', and 'Help'. Below that, a slide is displayed with the text 'Which option would you choose?' and a bar chart with three bars labeled 'Option 1', 'Option 2', and 'Option 3'. To the right of the slide is a sidebar titled 'Type' with various question type options: Multiple Choice, Image Choice, Word Cloud, Scissors, Open Ended, 100 points, 2 by 2 Matrix, Who will win?, and Q&A. Below these are 'Quiz' and 'Quick Slide' sections. A red arrow points to the 'Multiple Choice' option in the sidebar.

- Ar ôl i chi ddewis eich math o gwestiwn bydd angen i chi ysgrifennu eich cwestiwn a’r atebion a gall hyn fod drwy’r tab cynnwys:

Type **Content** Customize New

Your question ?

[Add a longer description](#)

Options ?

↓	An interactive presentation software	
↓	A form of measurement	
↓	An insect	
↓	A quiz website	

+Add

Gallwch ddileu dewisiadau drwy ddewis yr eicon bin yma.

Gallwch lusgo’r blychau atebion yn ôl ffafriaeth.

Neu ychwanegu mwy o ddewisiadau yma.

- Ar ôl i chi ysgrifennu eich cwestiwn byddwch yn sylwi bod y sleid wedi’i diweddarau gyda’ch cwestiynau a’ch atebion. Dyma enghraifft o gwestiwn **amlddewis**.
 - Chi sydd hefyd yn dewis trefn y canlyniadau.

Result layout ?

Bars	Donut	Pie
Dots New		

- Mae dewisiadau eraill ar gael o dan y pennawd “**Extras**”.
 - Os hoffech ddangos yr ateb cywir i’r gynulleidfa dewiswch “**Show correct answer(s)**” bydd hyn yn agor blychau ticio ar ochr dde’r atebion. Dewiswch y blwch/blychau wrth ymyl yr ateb(ion) cywir.

Options ?

↓	Interactive presentation software		<input checked="" type="checkbox"/>
↓	A form of measurement		<input type="checkbox"/>
↓	An insect		<input type="checkbox"/>
↓	A quiz website		<input type="checkbox"/>

+Add

- Bydd hyn yn agor y dewis “Show correct answer” ar y sleid sy’n caniatáu i chi ddatgelu’r ateb cywir i’ch cynulleidfa.
- Mae’r dewisiadau eraill yn cynnwys: newid o rifau absoliwt i ganrannau a chaniatáu i aelodau o’r gynulleidfa bleidleisio ar fwy nag un cwestiwn.


CREU CWISIAU

- Mae’r fersiwn rhad ac am ddim o Mentimeter yn caniatáu i chi greu pump o gwisiau i ofyn i’ch cynulleidfa.
- I greu cwis dewiswch sleid newydd ar waelod y sgrin ar y chwith ac yna dewiswch yr opsiwn “Quiz” o dan y pennawd “Type”.
- Yn debyg iawn i “Question Types” dewiswch eich cwestiynau a’ch atebion, gan ychwanegu mwy os hoffech, ac yna dewis y blwch drws nesaf i’r atebion cywir.
- O dan yr is-bennawd “Extras” mae’n rhoi’r opsiwn i chi ddewis cyfanswm yr amser y bydd y gynulleidfa yn ei gael i ateb y cwestiwn.
- Gallwch hefyd benderfynu a ydych eisiau cuddio’r “Leader Board” neu beidio.
- Pan fyddwch yn barod i gyflwyno dewiswch “Present”. Pan fydd aelod o’r gynulleidfa’n mewngofnodi i’ch sleid bydd yn dechrau llenwi gyda symbolau sy’n cynrychioli aelodau unigol. Mae aelodau o’r gynulleidfa’n cael dewis rhoi eu henw.
- Pan fyddwch yn barod dewiswch “Start Question” neu pwyswch y fysell saeth i’r dde.
- Bydd dyfeisiau’r gynulleidfa’n dangos yr atebion iddynt ddewis ohonynt.
- Unwaith y bydd yr holl gynulleidfa wedi dewis ateb gallwch ddewis “Show the Winner” i ddangos yr unigolyn sydd wedi ateb y rhan fwyaf o gwestiynau’n gywir a chyflymaf.

SUT MAE GWNEUD Y BLEIDLAIS YN FYW?

- Gallwch gael rhagolwg o’r sleid i wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio.
 - Dewiswch “Present” ar frig y sgrin ar yr ochr chwith. Isod ceir enghraifft o sleid cyflwyniad byw.

Mae'r cyfeiriad a'r cod hwn yn galluogi aelodau o'r gynulleidfa i fewngofnodi i'ch cyflwyniad.



Dewiswch hwn i newid y cyflwyniad yn fyw. Er enghraifft gallwch guddio'r canlyniadau oddi wrth y gynulleidfa neu doglo sgrin lawn yn ogystal â newid gosodiad y canlyniadau.

Mae'r eicon hwn yn dangos cyfanswm y cyfranogwyr sy'n rhyngweithio â'r cyflwyniad.


Dewiswch hwn i ddatgelu'r atebion cywir.

- I gymryd rhan yn y cwis bydd angen i aelod o'r gynulleidfa deipio www.menti.com yn y bar chwilio ar unrhyw ddyfais ac yna teipio'r cod chwe digid a ddangosir ar frig y sleid yn y canol.



Bydd dewis y symbol ar y brig ar y chwith yn dangos cyfarwyddyd i'r gynulleidfa.

- Ar ôl i aelod o'r gynulleidfa fewngofnodi bydd y cwestiynau'n ymddangos ar eu sgriniau unigol, gan roi'r opsiwn iddynt ddewis ateb. Bydd yr aelod o'r gynulleidfa wedyn yn dewis cyflwyno a bydd y canlyniadau'n dechrau dangos ar y sleid.




- Ar ôl i holl aelodau'r gynulleidfa gyflwyno eu hatebion gallwch ddewis dangos yr ateb cywir. Bydd hyn yn pylu allan yr holl ddewisiadau heblaw'r un cywir.
- I ailosod y canlyniadau dewiswch yr eicon gêr ar waelod y sleid ar y chwith. Yna dewiswch **“Reset results”**.
- Ffordd arall o ailosod y canlyniadau yw gadael y modd cyflwyno, dewis y sleid yr hoffech ei hailosod a dewis **“Reset Results”** o dan yr is-bennawd **“Do you want to use the Presentation again?”**
- O dan yr is-bennawd hwn gallwch hefyd ddewis **“Download Results”**. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen ble gallwch lawrlwytho'r sleidiau fel PDF. Dewiswch **“Download (Enw'r cyflwyniad).pdf”** o dan yr is-bennawd **Export PDF** i lawrlwytho'r cyflwyniad cyfan. Neu gallwch lawrlwytho sleidiau unigol.

SUT MAE INTEGREDDIO FY MHLEIDLAIS I POWERPOINT?


Gallwch uwchlwytho cyflwyniad i PowerPoint (noder: ar hyn o bryd mae rhai problemau gyda'r nodwedd hon. Nid yw'r cyflwyniadau hyn yn fyw pan fônt yn y modd Cyflwynydd ar PowerPoint).

- Ar dudalen hafan Mentimeter dewiswch yr eicon cwymplen a'r dewisiadau cymorth ar y bar ar y dde.
 - Dewiswch PowerPoint ac yna dewiswch **“Get the Plugin”**.
 - Bydd hyn yn mynd â chi i storfa apiau. Dewiswch **“Get it now”**.
- Pan fydd yr ategyn wedi'i lawrlwytho agorwch ddogfen PowerPoint.
 - Dewiswch y tab **“Insert”** ar far offer PowerPoint yna dewiswch **“My Add-ins”**



- Cliciwch ddwywaith ar y logo Mentimeter.
- Bydd hyn yn agor blwch sy'n eich cysylltu â Mentimeter.

- Dewiswch y cyflwyniad yr hoffech ei uwchlwytho trwy ddewis “Select”.



- *Gallwch hefyd greu cyflwyniad newydd yma.*

- Byddwch yn gweld y cwestiwn yn ymddangos ar y sleid.

Noder: pan fyddwch yn cychwyn y sioe sleidiau ni fydd y gweithgareddau a osodwyd yn y sleidiau’n fyw. I weld ymatebion y myfyrwyr yn fyw bydd angen i chi ailagor y sleid neu ei ddangos yn y porwr yn hytrach.)

DECHRAU ARNI GYDA POLL EVERYWHERE

Mae Poll Everywhere yn capio’r gynulleidfa ar bump ar hugain felly mae’n gweithio orau mewn seminarau a gweithdai. Mae Poll Everywhere yn darparu’r rhan fwyaf o bethau y mae Mentimeter yn ei wneud gyda’r fantais o beidio â chael cyfyngiad ar nifer y cwestiynau/actifadau.

I greu eich cyfrif:

- Ewch i <https://www.polleverywhere.com/>
- Dewiswch “**Sign Up**”. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen sy’n gofyn i chi sut yr hoffech ddefnyddio PollEverywhere.
- Dewiswch yr opsiwn **Presenting**.
- Nesaf, llenwch eich manylion (noder nad oes rhaid rhoi rhif ffôn).
- Dewiswch eich prif swyddogaeth:
 - You’re participating (dewiswch hwn os ydych chi’n ymateb i bleidlais pobl eraill yn bennaf).
 - You’re presenting (dewiswch hwn os ydych chi’n creu pleidlais i eraill ymateb iddi yn bennaf).

- Ar ôl i chi ddewis yr opsiynau amrywiol, crëwch eich cyfrif Poll Everywhere.


PA FATHAU O GWESTIYNAU SYDD AR GAEL YN POLL EVERYWHERE?

Math o Gwestiwn	Disgrifiad
Cwestiwn ac Ateb	Mae'n caniatáu i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau i'r cyflwynydd a bydd rhain yn ymddangos ar y sgrin.
Delwedd Gliciadwy	Mae hwn yn rhoi delwedd anhydrin i'ch cynulleidfa ble gallant ddewis pwynt penodol.
Arolwg	Yma gallwch greu arolwg gyda nifer fawr o gwestiynau lluosog.
Penagored	Mae'n galluogi i'ch cynulleidfa ateb cwestiynau penagored.
100 o Bwyntiau	Mae'n galluogi i'ch cynulleidfa flaenoriaethu eitemau allan o 100%
Cystadlaethau	Mae'n gweithio fel arolwg ond mae aelodau o'r gynulleidfa'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.
Siartiau Toesen	Bydd eich cynulleidfa'n ateb cwestiwn a bydd yr atebion yn ffurfio siart toesen.
Torri'r lâ	Yma gallwch ofyn cwestiwn cynhesu i fyny i ymgysylltu â'ch cynulleidfa
Uwch-Bleidleisio	Mae'n rhoi cyfle i'r gynulleidfa ysgrifennu eu hatebion eu hunain i gwestiynau agored. Mae hefyd yn galluogi i'r gynulleidfa Uwch-Bleidleisio'r atebion sy'n ymddangos ar y sleid a'u sgriniau sydd wedi cael eu hysgrifennu gan aelodau eraill o'r gynulleidfa.
Bwrdd Arweinwyr	Mae'n hyn yn caniatáu i'r gynulleidfa bleidleisio dros aelodau/timau eraill. Defnyddiol ar gyfer cystadlaethau.


Graddfa Emosiynau	Mae'n gadael i'ch cynulleidfa ddewis hwyl/tymer allan o'r lluniau a roddir
Adborth cyflwyniad	Mae'n rhoi arolwg a rag-adeiladwyd
Sbotolau	Mae'n gadael i'ch cynulleidfa ateb cwestiynau sbotolau sy'n ymddangos ar y sgrin
Adolygol	Gofynnwch gwestiwn Adolygol i'ch cynulleidfa
Clustnodi Timau	Mae'n gadael i'ch cynulleidfa ddewis timau i gwblhau tasgau
Trafodaeth	Mae'n gweithio yn yr un modd â "Cwestiwn ac Ateb"
Trafod Syniadau	Mae'n gadael i'ch cynulleidfa gyflwyno atebion a phleidleisio ar y syniadau a gyflwynwyd
Graddio	Mae'n gadael i'ch cynulleidfa raddio'r atebion. Bydd yr atebion yn ymddangos ar siart bar, y bloc talaf sydd â'r radd uchaf.
Dewis ar fap	"Delwedd Gliciadwy" gyda map parod
Ateb Byr	Bydd eich cynulleidfa'n cyflwyno atebion i gwestiwn a fydd yn ymddangos fel llif o destun i lawr y sleid.
Bwrdd Bwletin	Mae'n caniatáu i'ch cynulleidfa gyflwyno atebion sy'n llenwi'r sgrin.
Matrics 2X2	Mae'n caniatáu i chi greu siart ar gyfer arolwg sy'n mesur echel-x ac echel-y yn erbyn ei gilydd.

SUT MAE CREU GWEITHGAREDDAU YN POLL EVERYWHERE?

- I greu gweithgareddau ar gyfer eich cynulleidfa dewiswch "**Create**" ar frig y sgrin ar yr ochr chwith.
- Byddwch yn gweld y dewisiadau isod.
- I greu cwestiwn sylfaenol dewiswch "**Multiple Choice**"



- Llenwch y cwestiwn yr hoffech ei ofyn i'ch cynulleidfa yn y blwch **Questions** . Gallwch hefyd fewnforio delwedd trwy ddewis yr eicon delwedd ar ochr dde y blwch cwestiwn a llywio drwy'r chwiliwr ffeil i ddod o hyd i'r ffeil yr hoffech ei mewnfario.
- Islaw'r blwch cwestiwn ceir blychau i chi eu llenwi ag atebion posibl. Gallwch ychwanegu mwy o atebion drwy ddewis **"Add Option"** isod. Gallwch hefyd uwchlwytho delweddau fel atebion posibl hefyd.



Dewiswch yr eicon tic i farcio cwestiwn yn gywir.

Cliciwch a daliwch yr eicon hwn i lusgo'r ateb i'r drefn a ddymunwch.

Dewiswch yr eicon bin i ddileu ateb.

- Pan fyddwch wedi gorffen eich cwestiwn dewiswch **"Create"**
- Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen rhagolwg sleidiau:



Mae'r dewisiadau ar waelod y sgrin ar yr ochr dde yn caniatáu i chi:

- **Edit** – golygu'r sleid, h.y. ychwanegu dewis arall.
- **Export** - galluogi i chi weld yr hanes ymateb, cymryd sgrinlun o'r sleid a dyblygu'r sleid.
- **Delete** – rhoi sleid yn adran **Trash** y Sgrin Gartref.


Mae'r Bar Ochr yn rhoi'r dewisiadau canlynol i chi:

- **“Configure”**- mae'n galluogi i chi addasu agweddau penodol ar eich cwestiwn:
 - Mae'r ddewislen **“How People Can Respond”** yn caniatáu i chi ddewis y llwyfan y caiff y gynulleidfa ei ddewis i ymateb.
 - Mae **“Website”** yn golygu y gall y gynulleidfa ymateb drwy'r ddolen URL a gynhyrchir pan gaiff y bleidlais ei chreu. Gall hyn weithio ar gyfer popeth o ffonau symudol i liniaduron ac mae'n golygu ei bod yn rhaid i'r gynulleidfa deipio'r cyfeiriad ar frig y sleid.
 - Gall aelodau o'r gynulleidfa bleidleisio drwy neges destun hefyd.
 - Mae **“Audience Restriction & identity”** yn caniatáu i chi ddewis a ydych eisiau i aelodau o'r gynulleidfa fod yn anhysbys pan fyddant yn ateb ai peidio.
 - Mae **“Response Settings”** yn gadael i chi ddewis faint o weithiau y caiff eich cynulleidfa ymateb i'ch cwestiwn. Gallwch benderfynu hefyd a fydd modd i'r gynulleidfa newid eu hatebion ar ôl iddynt eu cyflwyno.
 - Mae **“Schedule lock/unlock times”** yn rhoi'r dewis i chi ddatgloi a chloi'r pleidleisio/canlyniadau. Gallwch hefyd nodi a ydych eisiau cloi/datgloi'r cyflwyniad.

- Mae **“Test”** yn nodwedd ddefnyddiol sy’n rhoi dyfais symudol dynwaredol i chi sy’n dangos beth fydd eich cynulleidfa’n ei weld ar eu sgrin bersonol. Gallwch hefyd “bleidleisio” drwy’r ddyfais ersatz hon ar ôl i chi ysgogi’r sleid.
- Mae **“Present”** yn caniatáu i chi lawrlwytho dolen i’r sleid i’w defnyddio yn PowerPoint.


Byddwch yn gweld y ddewislen ganlynol ar eich sleid:

- **Visual settings**- mae hwn yn caniatáu i chi newid yr agweddau gweledol ar eich sleidiau, gan gynnwys fformat y canlyniadau, ffont a lliw.
- **Activate**- mae’n caniatáu i’r gynulleidfa ryngweithio â’r sleidiau.
- **Show results**- mae’n dangos canlyniadau’r cwestiwn.
- **Show correct**- goleuo’r ateb cywir
- **Lock**- ni chaiff y gynulleidfa bleidleisio/ateb bellach.
- **Clear Results**- Ailosod y sleidiau.
- **Full screen**- Gwneud i’r sleid lenwi’r sgrin.



SUT MAE GWNEUD Y BLEIDLAIS YN FYW?

- I weld os yw popeth yn gweithio dewiswch yr adran **Test** ar y bar ochr a dewiswch y ddewislen **Activate**.



Dewiswch ateb ar y ddyfais symudol ac fe welwch y sleid yn diweddar. Bydd hyn yn gweithio yr un peth ar gyfer dyfeisiau'r gynulleidfa.

SUT MAE GRWPIO FY NGWEITHGAREDDAU?

Mae gosod eich gweithgareddau mewn grwpiau yn helpu i'w cadw mewn trefn. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n haws cyflwyno o'r we. Pan fyddwch yn cyflwyno yn y modd sgrin lawn, dim ond y gweithgareddau yn y grŵp presennol fydd yn weithredol pan fyddwch yn symud i'r cwestiwn nesaf.

I greu grŵp, dewiswch y gweithgareddau yr hoffech eu cael yn y grŵp trwy glicio'r blychau ticio, yna dewis y botwm **Group** ar frig y dudalen. Yn olaf, rhwch enw i'r grŵp a chliciwch ar **Create group**.

- Gellir creu cwestiynau/gweithgareddau'n unigol yn unig felly er mwyn creu cyflwyniad dewiswch **"Polls"** i fynd â chi nôl i'r sgrin gartref. Fe welwch eich cwestiwn ar ganol y sgrin o dan y pennawd **"Ungrouped"**.
 - Creu gweithgaredd arall er enghraifft **"Word Cloud"**. Mae cwmwl geiriau yn caniatáu i'ch cynulleidfa gyflwyno geiriau i sleid, sy'n ddefnyddiol i gael barn pobl yn anhysbys. Mae geiriau a ddefnyddir yn aml yn ymddangos yn fwy.
 - Dewiswch eich cwestiwn a dewiswch **"Create"**.
 - Dychwelwch i'r dudalen gartref trwy ddewis **"Polls"**.
 - Dewiswch y blychau ticio drws nesaf i deitlau'ch cwestiynau a dewiswch **"Group"**


The screenshot shows the Poll Everywhere interface. At the top, there are tabs for 'Polls', 'Participants', and 'Reports'. A navigation bar contains buttons for 'Create', 'Sort: My order', 'Group' (circled in red), 'Ungroup', 'Download', 'Report', 'Clear', 'Delete', 'Edit', 'Move', 'Lock', and 'Unlock'. Below this, there is a search bar and a list of polls. The first poll is titled 'What is the Capital of Brazil?' and is under the 'Ungrouped' category. The second poll is 'What one word would you use to describe Paris?'. The interface also shows '2 activities' and 'No responses' for the polls.

- Dewiswch enw i'r grŵp/cyflwyniad.
- Dewiswch **"Create Group"**.
- I ddileu gweithgaredd dewiswch y blwch ticio drws nesaf i deitl y gweithgaredd.
 - Yna dewiswch **"Delete"**. Bydd hyn yn rhoi'r gweithgaredd yn y **"Bin Sbwriel"**.
 - Dewiswch yr opsiwn **"Trash"** ar ochr chwith y sgrin.
 - Dewiswch y blwch ticio drws nesaf i'ch cwestiwn a dewiswch **"Delete Forever"**.


SUT MAE INTEGREDDIO FY MHLEIDLAI I POWERPOINT?

- Mae Poll Everywhere yn caniatáu i chi uwchlwytho gweithgareddau i PowerPoint.
 - Ar sgrin gartref Poll Everywhere, dewiswch PowerPoint yn y bar ar yr ochr chwith.

- Dewiswch **Download** a dewiswch **Install** pan fydd y ffenestr gosod yn ymddangos.
- Agorwch ddogfen PowerPoint.
- Fe welwch fod tab Poll Everywhere yno nawr. Dewiswch y tab hwn.



- Gofynnir i chi wedyn lenwi manylion eich cyfrif Poll Everywhere.
- Pan fyddwch wedi mewngofnodi bydd y tab yn dangos y dewisiadau isod:



- Gallwch greu gweithgaredd newydd drwy PowerPoint.
 - Dewiswch **New** yn y tab Poll Everywhere ar PowerPoint ac yna **Activity**
 - Crëwch eich cwestiwn ac yna dewiswch **Insert**.
 - Bydd y gweithgaredd yn cael ei roi ar y sleid.
- Gallwch hefyd fewnforio gweithgareddau yr ydych eisoes wedi'u creu ar Poll Everywhere.
 - Dewiswch **Insert** ac yna **Activity** (noder y gallwch hefyd fewnforio sgrinluniau a chyfarwyddiadau i'r gynulleidfa ar gyfer mewngofnodi i'ch cyflwyniad).
 - Bydd ffenestr yn agor sy'n dangos rhestr o'r gweithgareddau yr ydych wedi'u creu. Dewiswch y gweithgaredd yr hoffech ei fewnforio ac yna dewiswch **Insert**.
 - Bydd eich gweithgareddau nawr yn cael eu rhoi yn eich sleidiau.
- Fe welwch nad yw'r gweithgareddau'n fyw. I'w hysgogi dechreuwch y cyflwyniad.
- Gallwch olygu sleid trwy ddewis y symbol:

